CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc/Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 1af Mawrth 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mrs Anne Williams, Mr Huw Lloyd, Mr Brinley Owen, Mrs Rhiannon Jones a Mr David Williams.

Cynghorydd Sir – Mabon ap Gwynfor

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mr Geraint Jones a Mr David Williams

   Cyn cychwyn y cyfarfod cafwyd amser o dawelwch i gofio Dafydd H Jones (Syrior), cyn gynghorwr Cyngor Cymuned Llandrillo a fu farw yn ddiweddar. Anfonwyd ein cofion at y teulu.

3. **COFNODION CYFARFOD CHWEFROR 1af, 2019**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Westcotec – wedi derbyn amcangyfrif o brisiau** arwyddion solar. Gofyn a oes gostyngiad yn y prisiau yma.

5. **GOHEBIAETH**
   - **Llwybr Rhos Helyg** – wedi derbyn llythyr gan Richard Lewis yn nodi derbyn y llythyr, a'i wrthwynebiad i'r cais sydd wedi ei gyflwyno gan trigolion Rhos Helyg.
   - **Capel Hananeel** – derbyniwyd llythyr gan aelod o'r capel yn gofyn am gyfraniad tuag at ail beintio tu allan i'r adeilad. Penderfynwyd i beidio cyfrannu y tro hwn.

6. **MATERION CYNLLUNIO – Dim Materion**

7. **MATERION ARIANNOL**
   - Tâl aelodaeth Un Llais Cymru - £100 (100103)
   - Talu am yr awdit allanol – Swyddfa Awdit Allanol - £411.15 (100102)

8. **GDPR – Dim Materion**

9. **MATERION O'R GYMUNED**
   - **Prosiect Adeilad yr Hen Ysgol** - cyfarfod agored wedi ei drefnu at 5ed o Fawrth rhwng 6.30 a 8.30 i ddangos y cynlluniau a grëwyd gan y cwmni Arcadis i'r cyhoedd.
     Bydd pwyllgor yr hen ysgol yn trefnu cyfarfod rhwng y Cyngor Cymuned a nhw i gyflwyno Cynllun Busnes a thrafod y posibilrwydd o'r cyngor i gymryd rheolaeth o'r adeilad.
   - **Draeniau yr ysgol** – fe adroddwyd y bod cyflwr y draeniau o dan dir yr ysgol yn fregus, ac angen edrych i mewn i gyfrifoldeb pwy yw rhain.

- Fe fu farw **Gwenda Owen,** cyn brifathrawes yr ysgol yma yn Llandrillo, ac fe ofynnwyd **i**'r Clerc yrru llythyr o gydymdeimlad i'r teulu ar rhan y Cyngor.
- **Carthffosiaeth** – fe gafwyd adroddiad y bod carthffosiaeth yn rhedeg yn ôl i dir trigolion sydd yn rhan isaf y pentref. Clerc i yrru i Bwrdd Dwr. Hefyd i ofyn beth yw capasiti y gwaith carthffosiaeth.
- **Cyflenwad Dwr** – problemau cyflenwad dwr i'r pentref oherwydd cyflwr y pibellau. Clerc i yrru at Bwrdd Dwr
- **Apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020** – Cyngerdd Dafydd Iwan wedi ei drefnu ar gyfer 20fed o Fedi yn y Ganolfan ar gyfer codi arian i'r apêl.
- **Cerbydau a Beiciau Modur 4x4 –** wedi bod yn creu trafferthion yn yr ardal yn ddiweddar. Cadeirydd wedi hysbysu'r Heddlu.
- **Parcio yn Rhoslan** – yn bryder. Y Cyngor Sir yn edrych i mewn i ddymchwel y garej i greu mwy o lefydd parcio.
- Cafwyd neges gan T Butterworth, yn nodi cyflwr y **Safleoedd Bws a'r Bocs Ffôn.** Mae'r safleoedd bysiau yn cael eu glanhau yn rheolaidd gan y Cyngor Sir. Y clerc i gysylltu â BT ynglŷn â'r bocs ffôn.
- Mae aelod o'r gymuned ar restr i gael **byngalo yn Llandrillo**. Mae wedi cael cynnig 2 le yn Cynwyd, ond wedi gwrthod rhain gan ei bod eisiau bod yn agos at y teulu yn Llandrillo. Gan ei bod wedi gwrthod 2 waith, mae wedi ei thynnu i ffwrdd o'r rhestr. Mabon i edrych i mewn i hyn.
- **Coeden yn Bro Dinam** – mae pryder am goeden ar y stad sydd yn pydru ac yn beryg o ddisgyn mewn tywydd garw. Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.
- Mae'r darn tarmac **o flaen Godre'r Berwyn** wedi ei gofnodi fel ei fod angen ei neud, a gobeithio cyflenwir y gwaith yn fuan.
- **Golau ar y Wern** (ger y parc Chwarae) ddim yn gweithio. Clerc i gysylltu â'r Cyngor.
- **Ffordd i Giât mynydd** – tirlithriad/ffens wedi disgyn yn dilyn y tywydd garw. Clerc i gysylltu â Till Hill
- **Hendwr** – yr arogl o'r gwaith Methane Digester yn gwaethygu ar adegau.
- **Hendwr** – hefyd angen edrych i mewn a oes cais cynllunio ar gyfer y gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd.
- **Ffordd Dinam** – darnau o'r ffordd wedi erydu mewn darnau – Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……